Llais
Ystafell 5, Llawr 1
Ty Myrddin
Heol Yr Hen Orsaf
Caerfyddin SA31 1BT

Llais
Suite 5 Floor1
Ty Myrddin
Old Station Road
Carmarthen SA31 1BT

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Steve Moore Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Hywel Dda

22 Mai 2023
Anfonwyd drwy e-bost at: Steve Moore
cc Aillen Flynn Rheolwraig Partneriaethau a Thrawsnewid Gwasanaethau

Annwyl Steve

**Ymateb Llais Gorllewin Caerdydd i'r Rhaglen Gwelliant Gwasanaeth Anabledd Dysgu**.

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda, ein rhagflaenydd, wedi derbyn gwybodaeth lawn am y newidiadau arfaethedig i Anableddau Dysgu ac yn ymwybodol o'[r cyfnod ymgysylltu a fu rhwng Chwefror 2022 ac Ebrill 2023. Cytunodd Pwyllgor GwaIth y CIC ar y cynllun ymgysylltu yn ei gyfarfod yn Ionawr 2023.

O'r wybodaeth a ranwyd gyda ni, mae Llais Gorllewin Cymru yn cydnabod bod mwyafrif y bobl a ymatebodd i'r ymgysylltiad wedi mynegi eu dewis o **Opsiwn 2**

> "*Parhau i reoli derbyniadau cleifion mewnol AD o fewn wardiau AMH, gyda hyfforddiant ychwanegol i staff ac addasiadau amgylcheddol rhesymol. Fe fyddai hyn yn unol gydag Adolygiad Gofal Cenedlaethol o ddarpariaeth cleifion*

Cadeirydd | Chair: **Professor Medwin Hughes, DL**
Prif Weithredwr Dros Dro | Interim Chief Executive: **Alyson Thomas**
Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Regional Director (Llais West Wales): **Donna Coleman**
E-bost | E-mail: westwalesenquiries@llaiscymru.org
Ffôn I Tel: 01646 697610

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

*mewnol AD ysbytai (Gwella Gofal, Gwella Bywydau) sydd yn amlinellu'r angen i dderbyniadau fod yn fyr-dymor o ran natur a mabwysiadu dull 'cymuned yn gyntaf'. Mae gofalu am gleifion AD mewn wardiau AMH dros y deuddeg mis diwethaf wedi gwella gweithio cydweithredol rhwng y ward a gwasanaethau AD ac wedi darparu gwell canlyniadua i gleifion.*

*I gefnogi'r opsiwn yma fe fydd angen darparu hyfforddiant ychwanegol i staff cleifion mewnol AMH i wella eu sgiliau mewn gofalu am gleifion AD. Fe fyddem yn sicrhau bod CTLDs yn parhau i gefnogi derbyniadau a fydd yn sicrhau bod anghenion cleifion AD yn cael eu diwallu, bod hyd yr arhosiad yn briodol i anghenion unigol a bod wardiau a nodir yn cydymffurfio gydag amgylcheddau awtistiaeth."*

Teimlwn bod y broses ymgysylltu wedi rhoi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr drafod y gwasanaethau a ddarperir yn fwy manwl, i gynnwys rhai bylchau o fewn darpariaeth gofal, ynghyd â rhai problemau a phryderon.

**Argymhellon Llais Gorllewin Cymru**

- **Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y lefelau staffio cywir yn bodoli**
- **Bwrdd Iechyd i sicrhau bod staff yn derbyn yr hyfforddiant cywir**
- **Bwrdd Iechyd i sicrhau bod darpariaeth yn yr uned i ofalwyr/teulu weld eu hanwyliaid. Neu i gael cyfarfodydd gyda'r staff nyrsio**
- **Bwrdd Iechyd i ymgysylltu/gwrando'n barhaus gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ynghylch gofal a chynllunio gwasanaethau**
- **Unwaith y bydd newidiadau wedi eu gweithredu, casglu profiad cleifion a chyhoeddi eu canfyddiadau.**

Yr eiddoch yn gywir

Helen Williams
Dirprwy Gyfarwyddwraig Ranbarthol

Cadeirydd | Chair: **Professor Medwin Hughes, DL**
Prif Weithredwr Dros Dro | Interim Chief Executive: **Alyson Thomas**
E-bost | E-mail: **enquiries@llaiscymru.org**
Ffôn | Tel: **02920 235558**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.